

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN - FFYNGAU

CARMARTHENSHIRE LOCAL BIODIVERSITY ACTION PLAN

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL/S42 - FFYNGAU





Cyfeiriwch at www.first-nature.com/fungi/ i gael gwybodaeth fanylach am y rhywogaethau






Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r lluniau.

YR AMCANION CYFFREDINOL

- Clustnodi safleoedd newydd ar gyfer cynnal arolygon yn y sir.
- Hybu diddordeb gwirfoddolwyr mewn ffyngau.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymwneud â'r cyhoedd/ysgolion.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hynny a'r materion sy'n effeithio arnynt.

DS. Mae'r holl gapiau cwyr a'r ffyngau glaswelltir eraill yn grŵp blaenoriaeth ar gyfer cynnal arolygon ac ar gyfer ymwneud â'r cyhoedd.

Yr enw gwyddonol	Llun	Y cynefin / safleoedd yn Sir Gaerfyrddin	Y materion / camau gweithredu gofynnol
<p><i>Armillaria ectypa</i> Ffwng mêl y gors</p> <p>© Phillip Jones</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tyf mewn cynefinoedd llaith sy'n fynych yn rhai tra-fasig • Yr unig safle hysbys yng Nghymru yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Fferm y Ffrwd. Rheolir y safle gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg dealltwriaeth o'r gofynion ecolegol. • Bod Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn monitro'r safle. • Ystyried yr effaith bosibl os bydd angen gwaredu prysgwydd yn yr ardal.
<p><i>Clavaria zollingeri</i> Ffwng cwrel dulas</p> <p>© Isabel Mtacho</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tyf ar laswelltiroedd heb eu gwrteithio gan gynnwys lawntiau tai a mynwentydd ynghyd â glaswelltiroedd lled-naturiol. • Fe'i ceir mewn nifer o fannau yn y sir gan gynnwys Eglwys Pen-boyr a safle yn Felin-gwm. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y prif resymau dros y dirywiad yw dulliau amaethu dwys (yn bennaf defnyddio ffosforws) a cholli cynefinoedd. Hefyd mae esgeuluso glaswelltiroedd gan beri i'r borfa dyfu'n fras yn cyfyngu ar y modd y mae'r rhywogaeth yn dwyn ffrwyth, er nad yw'n eglur a yw hyn yn effeithio ar y rhan o'r ffwng sydd o dan y ddaear. • Cynnal arolygon ar safleoedd posibl.
<p><i>Hohenbuehelia culmicola</i> Madarch y moresg</p> <p>© Phillip Jones</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltir y rhywogaeth brin hon â thwyni symudol lle mae'n tyfu ymysg y gweiriau ar y twyni. Mae'r cynefin hwn wedi prinhau wrth i dwyni gael eu sefydlogi. • Fe'i cofnodwyd yn system twyni Pen-bre. 	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolaeth arfordirol amhriodol. • Rhoi gwybodaeth i barcmyrn / contractwyr sy'n gwneud gwaith rheoli rhafnwydd y môr. • Dylid ystyried y rhywogaeth hon yn elfen o unrhyw brosiectau adfer twyni.
<p><i>Hypocreopsis rhododendri</i> Menyg cyll</p> <p>© Jon Hudson</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Ym Mhrydain mae'n tyfu fel rheol ar fonion cyll gwyw sy'n dal i sefyll, ond mae'r rhywogaeth wedi ei chofnodi hefyd ar ganghennau cyll byw ac ar ganghennau cyll sydd wedi eu tocio yn ogystal ag ar ganghennau gwyw drain duon, helyg a llwyni rhosod gwyllt. Credir bod y rhywogaeth hon yn un barasitig sy'n tyfu ar <i>Hymenochaete corrugata</i> (Cramen ludiog) sef rhywogaeth a welir yn fynych ar fonion cyll sy'n gwywo neu sydd wedi gwywo. • Fe'i cofnodwyd ar ddau safle yn Sir Gaerfyrddin. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gorburi; bôn-docio; gwaredu prysgwydd. • Dylid cynnal arolygon ar safleoedd eraill lle mae coetiroedd cyll / drain duon. • Llunio taflen wybodaeth a'i dosbarthu i gontractwyr / rheolwyr coedwigoedd er mwyn ceisio cael cofnodion ac er mwyn rhoi sylw i'r rhywogaeth pan fo gwaith gwaredu prysgwydd yn cael ei wneud.

<p><i>Microglossum olivaceum</i> Tafod daear bach melynwyrd</p> <p>© Sam Bosanquet</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tyf ar hen laswelltiroedd lled-naturiol mewn amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys glaswelltiroedd asidaidd ar dir uchel, twyni tywod, glaswelltiroedd niwtral a chynefinoedd o wneuthuriad dyn megis mynwentydd. • Fe'i cofnodwyd ar 23 safle yn y sir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y prif resymau dros y dirywiad yw dulliau amaethu dwys (yn bennaf defnyddio ffosfforws a maetholion eraill) a cholli cynefinoedd. Hefyd mae esgeuluso glaswelltiroedd gan beri i'r borfa dyfu'n fras yn cyfyngu ar y modd y mae'r rhywogaeth yn dwyn ffrwyth, er nad yw'n eglur a yw hyn yn effeithio ar y rhan o'r ffwng sydd o dan y ddaear. • Cynnal arolwg o safleoedd addas.
<p><i>Phellodon tomentosus</i> Ffwng draenog</p> <p>© Elizabeth Holden</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltir y rhywogaeth hon â microgynefinoedd mewn coetiroedd llydanddail a phinwydd (bencydd, llwybrau, ymylon llwybrau mewn coetiroedd). • Un cofnod yn y gorffennol ar gwr planhigfa yng Nghynwyl Elfed. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bygythiadau i ficrogynefinoedd (damsang, gwasgu tir gan gerbydau; cynnal a chadw llwybrau; gwaredu gwastraff); cwmpo coed y mae'r ffwng yn tyfu arnynt; ewtroffeiddio. • Ailymweld â'r safle yng Nghynwyl Elfed.
<p><i>Phylloporus pelletieri</i> Boled tagellau aur</p> <p>© Justin Smith</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth hon yn gysylltiedig â choed llydanddail megis ffawydd ynghyd â chonwydd megis ffynidwydd a phinwydd a hynny ar briddoedd asidaidd neu dywodlyd. • Fe'i cofnodwyd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las ac yng Nghoed y Strade, Llanelli. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llygredd aer a choedwigaeth yn fygythiadau i'r rhywogaeth hon. • Cynnal arolwg o safleoedd addas eraill.
<p>Rhywogaethau S42 eraill nad oes cofnod ohonynt yn y sir ar hyn o bryd ond y mae eithaf posibilrwydd y gallent fod yma</p>			
<p><i>Hygrocybe spadicea</i> Cap cwyrog melynddu</p> <p>© David Harris</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yn gyffredinol cysylltir y rhywogaeth hon â glaswelltiroedd heb eu gwella. Yn Sir Benfro mae'r rhywogaeth hon yn tyfu ar laswelltiroedd sy'n cael eu pori ac sy'n gyforiog o ffyngau. Mae'r porfeydd yn rhai asidaidd neu niwtral sydd wedi eu lled-wella. 	<ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau o ran rheoli glaswelltiroedd gan gynnwys defnyddio gwrteithiau a llai o bori. • Cynnal arolwg o safleoedd addas.
<p><i>Entoloma bloxamii</i> Tagell binc fawr las</p> <p>© John Bailey</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gwelir y rhywogaeth hon ar hen laswelltiroedd lled-naturiol, yn enwedig glaswelltiroedd calchaid. • Yn Sir Benfro mae'r rhywogaeth hon yn tyfu ar laswelltiroedd niwtral ac ar laswelltiroedd calchaid, ond mae'r holl safleoedd yn rhai prin eu maetholion. Glaswelltiroedd calchaid yw dau o'r safleoedd; a glaswelltiroedd niwtral heb eu gwella ac sy'n cael eu pori yw'r lleill. 	<ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau o ran rheoli glaswelltiroedd gan gynnwys defnyddio gwrteithiau a llai o bori. • Cynnal arolwg o safleoedd addas.